



Annwyl Riant/Warcheidwad

Pleser oedd gweld cymaint o ddisgyblion nol yn yr ysgol ar ddydd Llun, gyda phresenoldeb o dros 98% yn y gwersi. Efallai rydyn ni'n parhau i fod yn bell o normalrwydd, ond roedd gweld disgyblion allan ar y cae amser cinio yn teimlo fel cam tuag at normalrwydd.

Bydd y rhan fwyaf o'r bwletin hwn yn canolbwyntio ar arholiadau ac asesiadau - roedd yn amlwg o'r sesiwn holi ac ateb ddydd Gwener ddiwethaf fod hwn yn fater sy'n peri pryder i chi fel rhieni. Mae hefyd yn pryderu disgyblion felly byddwn yn ceisio nodi ble rydyn ni'n sefyll ar hyn o bryd. Cwestiwn arall sy'n cael ei godi gan ddisgyblion yw un na allwn ei ateb - pryd y bydd disgyblion blwyddyn 11 a 13 yn gorffen eu hamser yn yr ysgol ac a allwn roi cyfle iddynt ei ddathlu mewn rhyw ffordd. Yn anffodus ni allwn ateb hyn ar hyn o bryd - cyn gynted ag y gwyddom byddwn yn rhoi gwybod ichi.

Yn gyntaf, ychydig o bwytiau gweinyddol:

Presenoldeb

yn ystod y cyfnod clo mae hi wedi bod yn gyffredin i rieni gysylltu ag Arweinwyr Cynnydd a Lles ynghylch 'absenoldebau' ond nawr ein bod yn dechrau dychwelyd byddem yn gofyn ichi anfon e-bost at abs@penweddig.ceredigion.sch.uk os yw disgybl yn mynd i fod yn absennol

Profion LFT

Os nad ydych wedi dychwelyd y ffurflenni caniatâd ar gyfer profion LFT, gwnewch hynny c.g.a.p. os gwelwch yn dda. Ar gyfer disgyblion dros 16 oed mae angen i'r disgybl lofnodi hwn ar ôl trafodaeth gyda chi, ond ar gyfer disgyblion dan 16 oed mae angen llofnod y rhiant neu'r gwarcheidwad.

Gwisg Ysgol

Os oes gennych unrhyw broblemau gyda gwisg ysgol ac yn dymuno prynu unrhyw eitemau, yna gallwch wneud hynny trwy www.alisonjonesschoolwear.co.uk neu ffonio 01970 625288 ar gyfer 'cllic-a-chasglu'.

Ffreutur

Bydd y ffreutur ar agor pan mae disgyblion yn dychwelyd ar ôl Pasg

Cymorth Ychwanegol

Os oes gan ddisgyblion bryderon neu angen cymorth ychwanegol yna gallwn gyfeirio at y cwnselydd ysgol a fydd yn dychwelyd i gwrsela wyneb yn wyneb ar ôl y Pasg, neu gefnogaeth arall trwy'r Hafan. Cysylltwch â Mrs Nia Wyn Williams neu Mr Ceri John os oes gennych bryderon am ddisgybl.

Blwyddyn 10 a 11 Mrs Nia Wyn Williams
Blwyddyn 12 a 13 Mr Ceri John

bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk
bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk

Diwrnodau HMS

Bydd y diwrnod HMS clustnodwyd ar gyfer dydd Gwener 28ain o Fai yn parhau. Bydd y diwrnod HMS clustnodwyd ar gyfer dechrau Gorffennaf yn symud i ddydd Mercher 9fed o Fehefin. Mae hwn yn ddyddiad sirol a bydd y diwrnod yn caniatáu ysgolion uwchradd i gymedroli'r graddau TGAU, UG a Safon Uwch yn fewnol a gydag ysgolion eraill.

Asesu

Ar ddydd lau 25/3/21 byddwn ni'n rhannu gwybodaeth am ein proses asesu ffurfiol a'r ffordd bydd hon yn gweithio i bynciau penodol. Bydd cyfle wedyn i chi holi unrhyw gwestiynau penodol mewn **sesiwn holi ac ateb ar brynawn Gwener am 1.30yp**: [Click here to join the meeting](#)

Beth fydd sail y broses asesu:

Bydd y broses asesu yn asesu cyrhaeddiad disgyblion yn y gwaith sydd wedi ei astudio – os mae cynnwys heb ei astudio ni fydd hwn yn ran o'r asesiad. Bydd y gradd yn ystyried ysgol o dystiolaeth:

- Aseidiadau di-arholiad (ADA neu NEA yn Saesneg): Mae'r rhain yn aseidiadau sy'n cyfrannu at raddau disgyblion bob blwyddyn ac mae esiamplau'n cynnwys gwaith llafar, aseidiadau dan reolaeth / gwaith cwrs, gwaith ymarferol, llyfrau braslunio celf ayb.
- Aseidiadau hanesyddol: Roedd disgyblion wedi cwblhau ystod sylweddol o waith yn y tymor o Fedi tan Ragfyr. Roedd hwn yn cynnwys profion, traethodau, gwaith dosbarth, cyn-bapurau arholiad ayb. Gall athrawon defnyddio dystiolaeth o'r tymor cyntaf fel rhan o'r asesiad.
- Aseidiadau ffurfiol: Mae CBAC wedi awgrymu nifer o aseidiadau posib i'w cwblhau yn ystod yr hanner tymor rhwng Ebrill a diwedd Mai. Gall athrawon dewis sampl o'r rhain i gwblhau. Nid oes rhaid gwneud y rhain fel un asesiad mawr - gall athrawon troi cwestiynau unigol mewn i dasgau bach. Gall asesiad werth 80 marc cael ei wneud fel prawf mewn awr, neu dau brawf o hanner awr yr un neu bedwar tasg o 20 marc yr un wedi eu dosbarthu. Bydd athrawon yn nodi ffocws ar gyfer unrhyw dasg benodol. Bydd marcio'r profion hyn yn cael ei gymedroli i sicrhau tegwch.

Wrth i ni lunio amserlen asesu, ceisiwn osgoi gormod o asesu ar yr un diwrnod. Fel arfer ni fydd dau asesiad sylweddol ar yr un dydd, ond gall athrawon rhoi dau asesiad bach mewn i'r amserlen.

Ar ddiwedd y broses asesu bydd athrawon yn casglu'r holl dystiolaeth at ei gilydd, gan ystyried hefyd gwybodaeth gefndirol ar gyfer unrhyw ystyriaeth arbennig/addasiadau. Bydd yr athro yn llunio gradd ffit orau ar sail y dystiolaeth gydag eglurhad ar gyfer hwn.

Yn ystod mis Mehefin byddwn yn rhannu'r graddau a'r rhesymau gyda disgyblion. Bydd cyfle iddynt drafod ac os oes gwall yn y wybodaeth gallwn adolygu'r graddau. Mewn unrhyw apêl fewnol bydd aelodau staff gwahanol yn edrych ar y radd i ystyried os yw'r radd yn rhesymol. Bydd hwn yn digwydd cyn i'r graddau cael eu hanfon i CBAC. Bydd CBAC yn edrych ar broffil cyrhaeddiad yr ysgol mewn cyrsiau unigol ac ystyried os yw'r graddau yn addas. Ni fydd CBAC yn newid graddau ond gallent ofyn am gyfiawnhad o'r graddau a gofyn i'r ysgol ystyried eto.

Bydd y graddau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau Awst. Bydd cyfle i apelio i CBAC ar y pwynt yma. Unwaith y byddwch yn derbyn manylion yr aseidiadau ar gyfer pob cwrs ar ddydd lau nesaf byddwn ar gael ar y dydd Gwener i ymateb i unrhyw gwestiynau sy'n codi - byddwn yn ceisio ateb y rhain ar unwaith er mwyn osgoi unrhyw bryderon dros wyliau'r Pasg.



Dr Rhodri Thomas
Pennaeth